# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Dolbadarn

Dyddiad yr arolygiad: 23/02/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae’r pennaeth yn arweinydd cadarn sy’n ysbrydoli eraill yn llwyddiannus. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer creu amgylchedd dysgu gofalgar a chroesawgar lle caiff pob disgybl ei annog i anelu’n uchel. Mae’r weledigaeth hon wedi ei rhannu’n effeithiol gyda chymuned yr ysgol ac mae ymdeimlad cryf o berthyn yn treiddio drwy fywyd yr ysgol. Mae lles a hapusrwydd disgyblion wrth galon y ddarpariaeth, ac mae perthnasoedd parchus rhwng staff a disgyblion yn helpu sicrhau awyrgylch diogel a chefnogol ar gyfer dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith, sy’n cefnogi presenoldeb ac ymddygiad da. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. O oedran cynnar, mae llawer yn datblygu medrau siarad hyderus yn Gymraeg, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn cyfathrebu’n fedrus yn Gymraeg a Saesneg. Mae medrau darllen ac ysgrifennu’r disgyblion yn datblygu’n gadarn dros amser, gan eu galluogi i ysgrifennu at wahanol ddibenion a thrafod testunau’n aeddfed. Maent hefyd yn cymhwyso eu medrau datrys problemau yn llwyddiannus ar draws ystod o weithgareddau.

Rhoddir pwyslais cryf ar hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan feithrin ymdeimlad cadarn o hunaniaeth a balchder ymhlith disgyblion. Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae’r ddarpariaeth ofalgar yn helpu’r rhan fwyaf i wneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Ar y cyfan, mae addysgu bwriadus yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda ac i adalw dysgu blaenorol yn fedrus. Mae profiadau ysgogol yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu  yn llwyddiannus ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf yn bwrpasol. Er hyn, nid yw’r arferion addysgu mwyaf effeithiol bob tro’n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwerthuso’r ddarpariaeth yn bwrpasol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rolau’n gydwybodol, ac mae partneriaethau cadarn â rhieni a’r gymuned yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion ac yn cefnogi eu lles a’u datblygiad yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026